**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 18 Gorffennaf 2019 am 3.30pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd M Sherwood (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwr** | **Y Cynghorwr** |
|---|---|---|
| D W Helliwell | E T Kirchner | H M Morris |
| D Phillips | | |

**Aelod Cyfetholedig**
Andrew Davies

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Craig Davies | Cyfreithiwr |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Anthony Richards | Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: C R Doyle ac L R Jones

---

## 9 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 10 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2019 a'u llofnodi fel cofnod cywir, yn amodol ar ddiwygio cofnod 8 (6) sef estyn y gwahoddiad i Andrew Davies, cyn-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar gyfer naill ai un pwnc yn unig (Tlodi) neu ar gyfer y flwyddyn gyfan. Bydd Mr Davies yn penderfynu ar sail ei gyfetholiad yn seiliedig ar ei ymrwymiadau.

## 11 Cyfethol Andrew Davies

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2019, lle cytunwyd i gyfethol Andrew Davies, cyn-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, i'r pwyllgor ar gyfer naill ai un eitem benodol (Tlodi) neu ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2019/2020.

**Penderfynwyd** cyfethol Andrew Davies, cyn-Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, i'r pwyllgor ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2019/2020 yn ei chyfanrwydd.

**12 Y diweddaraf am y Comisiwn Gwirionedd Tlodi.**

Dywedodd y Swyddog Tlodi a'i Atal fod y Cabinet wedi cwrdd ar 20 Mehefin 2019 a chymeradwywyd cyfranogaeth y cyngor yn y Comisiwn Gwirionedd Tlodi.

Dywedodd y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp tasg a gorffen. Rôl y grŵp tasg a gorffen oedd sefydlu Comisiwn Gwirionedd Tlodi yn Abertawe a thrafod materion ynghylch rolau a chyfrifoldebau, cefnogaeth swyddogion etc, er mwyn trefnu lansiad cyhoeddus o fewn 6-9 mis. Manylodd ar aelodaeth y grŵp a oedd yn cynnwys yr Arweinydd, Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell a chynrychiolwyr o'r trydydd sector.

Cododd yr aelodau faterion ynghylch: angenrheidrwydd derbyn adroddiadau ysgrifenedig cyn y cyfarfod er mwyn rhoi ystyriaeth lawn i'r mater; trefniadau llywodraethu ac adrodd; yr angen i sicrhau annibyniaeth o'r cyngor; cyngor Mr A Gravell ar arfer gorau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei gyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd:**

1. Y bydd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cylchredeg yr adroddiad i'r Cabinet ar 20 Mehefin 2019;
2. Y bydd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cylchredeg adroddiad gwreiddiol yr Ymchwiliad Craffu; a
3. Er na nodwyd Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe fel pwnc ar gyfer y cynllun gwaith, hoffai aelodau dderbyn diweddariadau rheolaidd er gwybodaeth.

**13 Cyflwyniad - Isadeiledd Gwyrdd a'i Gysylltiadau ag Iechyd - Fran Rolfe, Cyfoeth Naturiol Cymru.**

Rhoddodd Fran Rolfe, Cyfoeth Naturiol Cymru, gyflwyniad ar yr Isadeiledd Gwyrdd a'i gysylltiadau ag iechyd.

Nododd y cyflwyniad:

- Esboniad o'r Isadeiledd Gwyrdd.
- Y Naw Ffin Blanedol.
- Heriau Trefol Abertawe.
- Gwasanaethau Ecosystem yr Isadeiledd Gwyrdd.
- Busnes fel arfer.
- Bioamrywiaeth
- Egwyddorion Gwyrdd.
- SuDS.
- Astudiaeth Dichonoldeb - Y Gallu i Greu.

- Mannau gwyrdd trefol a iechyd.

Roedd trafodaethau'r aelodau'n cynnwys: diffyg mannau gwyrdd yn ward y Castell; y dystiolaeth i gefnogi bod pobl sy'n gwella o salwch yn cael budd o fannau gwyrdd; y gwahaniaeth rhwng ymrwymiad a pholisi; annog plannu coed mewn cymunedau ledled Abertawe, yn enwedig cymunedau difreintiedig; rolau PDP eraill wrth archwilio'r Isadeiledd Gwyrdd; archwilio rôl partneriaid wrth gynorthwyo'r cyngor â'r strategaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i Fran Rolfe am ei chyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi**.**

## 14 Adborth o'r Fforwm Tlodi Mewnol

Dywedodd y Cadeirydd fod y fforwm wedi cwrdd ac ailffocysu er mwyn gwneud yr amcanion yn rhai CAMPUS.

## 15 Dyddiadau ac amserau cyfarfodydd yn y dyfodol

Cyfeiriodd y Cadeirydd at drafodaethau blaenorol a dywedodd mai'r amser a'r diwrnod mwyaf cyfleus ar gyfer y cyfarfod oedd 3.30pm ar ddydd Llun neu ddydd Iau.

**Penderfynwyd:**

1) Cynnal y cyfarfod nesaf ddydd Llun 30 Medi am 3.30pm.
2) Y bydd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â'r Cadeirydd ynghylch amserlen dyddiadau ar gyfer gweddill y Flwyddyn Ddinesig.

## 16 Cynllun Gwaith 2019-2020

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu â Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd ynghylch amserlennu pynciau ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig

Daeth y cyfarfod i ben am 5.30 pm

**Cadeirydd**